Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cwestiynau Cyffredin

Pecyn Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal

Arian@BywydCampws

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill, megis Braille, print bras etc. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Derbynfa Bywyd Campws.

Mae Prifysgol Abertawe yn cynnig cymorth ychwanegol i bobl ifanc sydd wedi profi gofal. Mae gennym becyn o gymorth a fydd, gobeithiwn, yn helpu myfyrwyr i ymgartrefu, i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau yma, ac i raddio'n llwyddiannus.

Pwy sy'n gymwys?

I fod yn gymwys i dderbyn y pecyn cymorth isod, mae'n rhaid eich bod wedi bod yng ngofal Awdurdod Lleol yn berson ifanc am o leiaf 3 mis. Tybir eich bod yn gadael gofal pan fyddwch yn 16 oed, sef yr oedran gadael ysgol. Os ydych wedi bod mewn gofal, ac os bydd mynd i'r brifysgol o ddiddordeb i chi, tybir eich bod yn berson sy'n gadael gofal tan eich bod yn 21 oed. Mae hynny'n golygu, os ydych wedi bod mewn gofal, cewch fanteisio ar yr holl drefniadau cymorth isod ar unrhyw adeg tan eich bod yn 24 oed. Os a phryd yr ydych yn dod i astudio ym Mhrifysgol Abertawe, mae gennych hawl i dderbyn y cymorth tan eich bod yn cwblhau'ch cwrs.

Sylwer: Dyluniwyd y pecyn hwn ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal sydd yn breswylwyr parhaol y Deyrnas Unedig, ac sydd yn fyfyrwyr 'cartref' at ddibenion ffioedd. Mae croeso i fyfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr 'cartref' gysylltu ag Arian@BywydCampws i drafod unrhyw anghenion cymorth sydd ganddynt.

Sut mae cael mynediad at y pecyn cymorth?

Gallwch ddatgan ar eich ffurflen UCAS eich bod wedi derbyn gofal, neu gall eich Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol ein hysbysu eich bod yn Gadael Gofal. Un ffordd neu'r llall, rydym am sicrhau bod y gefnogaeth ar gael cyn gynted â phosibl. Neu gallwch gysylltu gydag un o'n timau yn uniongyrchol cyn i chi gychwyn ar eich astudiaethau neu pan fyddwch yn cyrraedd yma (gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen hon).

Beth am gyfrinachedd?

Chi sy'n penderfynu faint o gymorth sydd ei angen arnoch, a phryd yr ydych yn dewis gofyn amdano. Chi sydd biau'r holl wybodaeth am eich cefndir. Cedwir unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhannu gyda ni yn gyfrinachol oni bai eich bod yn dewis fel arall.

Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Rhennir ein pecyn cymorth yn dair elfen:

- **Cyn i chi gyrraedd**
- **Cymorth tra'ch bod yn astudio**
- **Cymorth cyn i chi raddio**

Cymorth cyn i chi gyrraedd

Cymorth cyn i chi gyrraedd

Cymorth gyda'ch cais i'r Brifysgol

Os ydych chi am gael cymorth gyda'r broses ymgeisio, gall staff profiadol yn y Brifysgol eich helpu i gwblhau'ch ffurflen UCAS. Mewn rhai achosion, bydd angen cyfweliad gyda'r adran o'ch dewis, ac os felly, gallwn drefnu i aelod o staff eich helpu i baratoi.

Cymorth Ariannol i fynychu Diwrnodau Agored

Cymorth Ariannol i ddod i gyfweliadau neu ddiwrnodau agored

Mewn Diwrnod Agored, cewch gyfle i siarad â myfyrwyr a staff, ac i ymweld â gwahanol rannau o'r Brifysgol. Rhowch wybod i ni os ydych yn dod i un o Ddiwrnodau Agored Prifysgol Abertawe. Gallwn helpu i drefnu eich ymweliad a threfnu i'ch cyswllt a enwir eich cyfarfod. Peidiwch â gadael i'r gost eich atal rhag dod! Mae modd ad-dalu costau teithio (bydd hyn, fel arfer, yn cynnwys cost tocyn rheilffordd ail ddosbarth a chostau cludiant cyhoeddus eraill).

Ar ôl i chi dderbyn lle ym Mhrifysgol Abertawe

Mae'n bosibl y bydd gennych gwestiynau am gymorth gydag anabledd, llety, cyllid, sgiliau astudio a chost y cyfan. Bydd eich cyswllt a enwir yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad i drafod y materion hyn ac unrhyw ymholiadau eraill a all fod gennych. Gall hyn fod yn wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, neu trwy e-bost. Amcan yr apwyntiad yw eich helpu i bontio i fywyd Prifysgol, a sicrhau bod popeth yn barod i chi gyrraedd.

Yn yr apwyntiad, bydd eich cyswllt a enwir yn gallu gwirio eich hawliau i unrhyw arian gan gynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu, Benthyciadau Cynhaliaeth a Grantiau yn ogystal ag unrhyw gymorth y gallech fod yn deilwng ohono gan yr Awdurdod Lleol. Hefyd, gallwn eich helpu i gwblhau'r ffurflenni a sicrhau bod gennych y dogfennau cywir i'w cyflwyno gyda hwy. Mae llawer o fyfyrwyr wedi cael bod y cyfarfod hwn yn ddefnyddiol dros ben, yn arbennig os yw Gweithiwr Allweddol neu Riant Maeth yn dod gyda hwy i ofyn cwestiynau efallai nad ydynt wedi'u hystyried.

Cytundeb i'r Rhai sy'n Gadael Gofal

Mae Prifysgol Abertawe yn cynnig Cytundeb i fyfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal. Amcan y cytundeb yw sicrhau ein bod yn gallu eich cefnogi wrth i chi ymgeisio am le, cyrraedd Abertawe, a llwyddo yn eich astudio. Os ydych yn 'Fyfyriwr Cytundeb', byddwn yn gostwng y gofyniad o ran canlyniadau Safon Uwch o un radd (neu gyfwerth). Er enghraifft, os bydd rhaglen yn gofyn am ABB, byddwn yn lleihau hynny i BBB neu ABC - gan ddibynnu ar ofynion union y rhaglen radd berthnasol. Amodau a Thelerau'n gymwys.

Cymorth wrth Astudio

Rheoli eich Arian, a Chyllidebu

Telir Benthyciadau Myfyrwyr mewn tri rhandaliad. Fel myfyriwr, mae'n bosibl mai dyma'r tro cyntaf y bydd raid i chi drin symiau arian mor fawr. I'ch helpu i wneud hyn yn llwyddiannus, mae staff y Swyddfa Cyngor a Chymorth Ariannol ar gael i roi cyngor a chyfarwyddyd ar gyllidebu. Rydym yn cynnig ystod o weithdai rheoli arian a llunio cyllideb, a gallwn ddarparu'r rhain ar sail un-i-un.

Llety drwy gydol y flwyddyn

Llety drwy gydol y flwyddyn

Gall Prifysgol Abertawe warantu llety 365 diwrnod y flwyddyn ar y campws i chi yn eich blwyddyn gyntaf yn y Brifysgol, gan gynnwys Nadolig, y Pasg, a'r gwyliau haf (cyhyd â'ch bod yn cyflwyno cais yn ddigon cynnar). Fel arall, byddwn hefyd yn eich helpu i ddod o hyd i lety preifat yn yr ardal leol os oes angen cymorth arnoch.

Bwrsariaeth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal
I fyfyrwyr israddedig, rydym yn cynnig grant o £1,000 am bob blwyddyn astudio (yn ogystal ag unrhyw gymorth ariannol arall y byddwch yn ei dderbyn). Bwriad yr arian hwn yw talu'ch costau llety am flwyddyn lawn.

Cymorth Academaidd drwy ein Rhaglen Llwyddiant Academaidd

Cymorth Adrannol
Ym Mhrifysgol Abertawe, mae gyda ni ystod o ddarpariaethau cymorth academaidd i gefnogi myfyrwyr trwy gydol eu hamser yn y Brifysgol, yn arbennig yn y cyfnod pontio cychwynnol i ddod yn fyfyriwr israddedig, ac yn eu datblygiad personol ehangach. Maent yn cynnwys:

- Neilltuo **Tiwtor Academaidd** a fydd ar gael i drafod eich cynnydd academaidd a phersonol.
- Adnoddau ar-lein megis **Blackboard** - Mae gan ein hamgylchedd e-ddysgu ganllawiau cyflym i'ch rhoi ar y trywydd iawn o ran sgiliau academaidd ar lefel gradd, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer darlithoedd a chymryd nodiadau, ac ar gyfer cynllunio traethodau ac aseiniadau.
- Mae **Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau Prifysgol Abertawe** yn cynnal llyfrgell gynhwysfawr, ac maent hefyd yn cynnig cymorth academaidd trwy ddarparu adnoddau ar-lein, hyfforddiant, a staff arbenigol i helpu gyda phrosiectau penodol.
- Tra eich bod yn astudio ym Mhrifysgol Abertawe, cewch fynediad am ddim at ein sgiliau astudio academaidd trwy'r **Rhaglen Llwyddiant Academaidd. Dyluniwyd** y dosbarthiadau a gynigir o fewn y Rhaglen i'ch helpu i addasu'n llwyddiannus i astudio Addysg Uwch, eich helpu i ddod yn gyfarwydd â systemau'r Brifysgol a'i gofynion academaidd, ac i wella'ch sgiliau astudio academaidd. Mae'r dosbarthiadau'n cynnwys:

1. Ysgrifennu Traethodau Academaidd
2. Sgiliau Cyflwyno
3. Meddwl yn feirniadol
4. Sgiliau Arholiad
5. Hefyd, cewch drefnu sesiwn un-i-un gyda thiwtor i drafod unrhyw agwedd ar eich gwaith academaidd.

Cymorth gyda gofal plant tra eich bod yn astudio

Cymorth gyda gofal plant tra'ch bod yn astudio
Os oes gennych blant sydd angen gofal, mae grantiau ar gael i fyfyrwyr israddedig i helpu gyda'r gost. Mae'r swm y gallwch ei dderbyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Cymorth i ddod o hyd i waith rhan amser / gwaith yn ystod y gwyliau, ac i gynllunio'ch gyrfa
Mae Prifysgol Abertawe yn gwybod ac yn deall pa mor bwysig y gall dod o hyd i swydd fod i'n holl fyfyrwyr, ac yn cydnabod y pwysau ychwanegol a allai fod ar y rhai sy'n gadael gofal. Gall Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Abertawe eich helpu i ddod o hyd i waith dros dro a gwaith rhan amser yn Abertawe a'r cyffiniau yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau. Gall hefyd gynnig cymorth o ran cynllunio gyrfa gan gynnwys dod o hyd i brofiad gwaith gyda chyflog, neu heb gyflog.

Mae Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith ar gyfer myfyrwyr ifanc ar gyrsiau addysg uwch yng Nghymru sy'n wynebu rhwystrau i sicrhau profiad gwaith. Bydd y rhaglen, sy'n cael ei rheoli gan GO Wales, yn eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd profiad gwaith hyblyg sy'n cyd-fynd â'ch astudiaethau a'ch ymrwymiadau eraill.

I gael rhagor o wybodaeth ac i lawrlwytho taflen wybodaeth Profiad Gwaith GO Wales, ewch i www.gowales.co.uk neu cysylltwch drwy e-bostio gowales@abertawe.ac.uk

Cymorth Cyn Graddio

Aelodaeth am ddim o Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe
Fel aelod o'r Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr, gallwch fanteisio ar ystod eang o wasanaethau: cysylltu â chyn-fyfyrwyr eraill trwy'r Bwrdd Ffrindiau; derbyn newyddion am y Brifysgol ac am gyn-fyfyrwyr eraill trwy negeseuon e-bost rheolaidd a'r cylchgrawn blynyddol, SAIL; prynu pethau cofiadwy o'r amrediad sydd gennym; manteisio ar ddisgowntiau a negodwyd gan y Brifysgol er lles Cyn-fyfyrwyr; a llawer mwy.

Bwrsariaeth Ôl-raddedig i Fyfyrwyr sydd wedi Gadael Gofal

Yn ystyried Astudio Ôl-raddedig?
Un o'r prif rwystrau a wynebir gan raddedigion wrth ystyried astudio ôl-raddedig yw dod o hyd i'r cyllid angenrheidiol, ond nid yw'r broblem yn un y mae'n amhosibl ei goresgyn. Yn ogystal â chyrff ariannu cyhoeddus, gall fod ffynonellau cyllid eraill yn aros i chi ddod o hyd iddynt. Gweler y tudalennau gwe Cyllid Ôl-raddedig i dderbyn gwybodaeth bellach.

Fel myfyriwr sydd wedi Gadael Gofal sy'n gobeithio astudio ar lefel ôl-radd, efallai y byddwch chi'n gymwys i gael bwrsariaeth untro o £500 i helpu gyda chostau eich cwrs.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r dulliau isod neu edrychwch ar ein tudalennau gwe

CYFRINACHEDD: Mae tîm Arian@BywydTawe yn trin yr holl wybodaeth rydych yn ei rhoi iddynt yn hollol gyfrinachol. Ar yr adegau hynny pan fydd angen i ni ymgynghori â staff mewn adrannau eraill, ni fyddwn yn gwneud hynny heb gael eich caniatâd ymlaen llaw.

Diogelu Data: Prifysgol Abertawe yw'r rheolydd data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau myfyrwyr yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) y DU a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data – manylion cyswllt dataprotection@abertawe.ac.uk. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut a pham y cesglir a defnyddir eich data, gweler Datganiad Preifatrwydd y Brifysgol yma a gweler y Datganiad Preifatrwydd BywydCampws yma.

**Mae'r wybodaeth hon yn gywir ym mis Ionawr 2019*

money.campuslife@abertawe.ac.uk

01792 606699

https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/astudio/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/bywydcampws/arian-bywydcampws/